

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Aesthetics by Dr Tom Kamal, Bro
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 10 Chwefror 2026

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mai 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Aesthetics by Dr Tom Kamal ar 10 Chwefror 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gwasanaeth. Dywedodd pob un a wnaeth ymateb i'r holiadur i gleifion bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, wedi diogelu eu preifatrwydd, wedi esbonio triniaethau'n glir, wedi gwrando ar eu cwestiynau ac wedi eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn dda iawn a phwysleisiodd y mwyafrif broffesiynoldeb a thrylwyrdd y clinigydd, yn ogystal â glendid ac awyrgylch tawel y clinig.

Roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael cymorth i fyw bywydau iachach, gydag ymgynghoriadau yn cynnwys trafodaethau ar ddewis ffordd iach o fyw, cymeriant protein, màs y cyhyrau, rhoi'r gorau i smygu ac yfed alcohol yn ddiogel. Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach yn cael ei darparu ar-lein hefyd.

Roedd preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal gan ddefnyddio sgriniau, bleinds ac ystafelloedd ymgynghori y gellir eu cloi. Roedd polisi hebryngwyr ar waith a gallai'r cleifion fynd â rhywun gyda nhw i ymgynghoriadau.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir i'w helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Roedd polisi cydsynio cyfredol yn bodoli ac roedd holiaduron meddygol yn cael eu cwblhau ymlaen llaw er mwyn helpu i gynnal asesiad effeithiol. Roedd gwybodaeth ar gael mewn sawl fformat ac roedd cymorth cyfieithu yn cael ei gynnig pan oedd angen.

Roedd parhad gofal yn cael ei gynnal trwy apwyntiadau dilynol wedi'u cynllunio ac roedd cleifion yn cael esboniadau clir am opsiynau triniaeth, risgiau, costau a symptomau baner goch.

Roedd y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda pholisïau, hyfforddiant, addasiadau rhesymol ac adeiladau hygyrch yn cefnogi mynediad teg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn nodi eu bod yn cael profiadau ardderchog, gydag adborth cyson gadarnhaol
- Cyfathrebu cryf, gydag esboniadau clir a gwybodaeth hygyrch
- Systemau effeithiol i gynnal preifatrwydd, urddas a mynediad cyfartal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd mynediad i'r safle wedi'i ddiogelu drwy system mynediad â chod ac roedd y gosodiadau a'r dodrefn mewn cyflwr da. Roedd y ddogfennaeth diogelwch ofynnol ar gael, gan gynnwys adroddiad cyfredol ar arolygiad o'r gosodiadau trydanol, tystysgrif diogelwch nwy a thystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy. Disgrifiodd y cleifion y clinig fel lleoliad glân, gyda digon o le ac awyrgylch proffesiynol.

Roedd systemau cadarn ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch. Roedd gan y gwasanaeth bolisi uwchgyfeirio a Chynllun Parhad Busnes cyfredol. Roedd y staff yn deall eu cyfrifoldebau pe bai argyfwng meddygol neu dân, ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf i'w helpu yn hyn o beth. Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle, Polisi Anaffylacsis a Pholisi Wrth Gefn, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol. Roedd y trefniadau diogelwch tân yn gynhwysfawr, gyda phroffion rheolaidd, ymarferion tân, arwyddion clir a chyfarpar oedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Roedd y gwaith glanhau yn cael ei wneud gan ddarparwr wedi'i gontractio a'r rheolwr, ac roedd amserlenni glanhau wedi'u cwblhau ar gael. Roedd y prosesau ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol yn cael eu rheoli'n briodol ac roedd polisiâu atal a rheoli heintiau a dihalogi cyfredol ar waith. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am lendid yr amgylchedd clinigol.

Roedd y trefniadau diogelu yn briodol. Roedd y rheolwr cofrestredig, a oedd yn gweithredu fel arweinydd diogelu, wedi'i hyfforddi i lefel tri ac yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â chyrrff diogelu. Nid oedd plant yn cael eu trin yn y clinig a phan oeddent yn bresennol, byddent bob amser yn aros gyda'u rhieni. Roedd polisiâu diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar gael.

Roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cynnwys adborth gan gleifion ac archwiliad colli pwysau. Nid oedd unrhyw ddogwyddiadau hysbysadwy wedi codi. Roedd y systemau cadw cofnodion yn ddiogel ac roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn gywir ac yn cydymffurfio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle bob amser yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

- Parodrwydd amlwg ar gyfer argyfwng, gan gynnwys hyfforddiant cyfredol a gweithdrefnau clir
- Trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol gydag adborth cadarnhaol iawn gan gleifion ar lendid.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu effeithiol wedi'u hategu gan linellau adrodd clir a fframwaith wedi'i strwythuro ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd datganiad o ddiben cyfredol ar gael a chadarnhaodd yr arolygiad fod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r datganiad hwnnw. Roedd canllaw i gleifion hefyd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo cyn eu rhoi ar waith, gyda'r ddogfennaeth yn cael ei hysgrifennu a'i llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a'r rheolwr. Roedd systemau yn sicrhau bod canllawiau perthnasol a diweddariadau diogelwch gan gyrff allanol, gan gynnwys yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a Llywodraeth Cymru, yn cael eu rhannu ac y gweithredwyd arnynt. Roedd tystysgrif cofrestru ac atodlen AGIC yn cael eu harddangos yn amlwg yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd tystiolaeth hefyd o yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus cyfredol. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i drefnu'n dda ar y cyfan.

Roedd y prosesau ar gyfer rheoli pryderon yn effeithiol. Roedd y cleifion yn cael gwybod am y weithdrefn gwyno drwy wefan y gwasanaeth a'r wybodaeth wrth drefnu apwyntiad. Roedd polisi cwynion cyfredol yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer cofnodi cwynion, ymchwilio iddynt, eu cydnabod ac ymateb iddynt. Lle roedd pryder yn ymwneud â'r rheolwr cofrestredig, roedd cwynion yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y swyddfa er mwyn sicrhau annibyniaeth. Roedd gwybodaeth am godi pryderon, rhoi adborth a chael gafael ar ddeunyddiau hybu iechyd ar gael yn hwylus. Roedd y gwasanaeth yn deall gofynion hysbysu AGIC ac nid oedd unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy wedi codi.

Roedd arferion recriwtio a chyflogi yn ddiogel ac yn cydymffurfio. Y rheolwr cofrestredig oedd yn darparu'r holl ofal clinigol. Roedd ganddo gofrestrriad proffesiynol cyfredol ac roedd yn cael arfarniadau blynyddol gan y GIG. Roedd gwiriad manylach cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thystiolaeth ei fod wedi'i imiweiddio rhag Hepatitis B ar gael. Roedd polisi recriwtio a dethol cyfredol ar waith ac roedd gwiriadau priodol wedi'u cwblhau ar gyfer contractwr

fel rhan o gynlluniau i ehangu'r gwasanaeth. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn gyfredol ac roedd trefniadau goruchwyllo ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Strwythur llywodraethu cryf gyda llinellau adrodd clir a dogfennaeth wedi'i chynnal a'i chadw'n dda
- Proses gadarn ar gyfer ymdrin â chwynion gyda gwybodaeth dryloyw i gleifion
- Arferion recriwtio diogel wedi'u cefnogi gan wiriadau, hyfforddiant ac arfarniadau proffesiynol cyfredol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Aesthetics by Dr Tom Kamal ar gyfer yr arolygiad. Cawsom gyfanswm o 14 ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 14 ymateb ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd pob un a ymatebodd yn cytuno'n gryf bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, wedi diogelu eu preifatrwydd, wedi esbonio triniaethau, wedi gwrandao ar gwestiynau ac wedi eu cynnwys mewn penderfyniadau gofal iechyd. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn dda iawn. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol yn canmol proffesiynoldeb Dr Tom, pa mor drylwyr ydoedd a glendid ac awyrgylch y clinig. Nododd y cleifion:

“Cefais ymgynghoriad esthetig gwych ac allwn i ddim bod yn hapusach â'r profiad. O'r eiliad y cerddais i mewn, teimlais groeso, gwrandawodd arnaf a chefais ofal da iawn. Roedd yr ymgynghoriad yn hynod drylwyr a chefais lawer o wybodaeth, gyda phopeth yn cael ei egluro mewn ffordd glir a gonest—dim pwysau, dim ond arweiniad arbenigol wedi'i deilwra at fy nodau. Yr hyn oedd fwyaf amlwg oedd y sylw i fanylder a'r dull wedi'i bersonoli. Gadewais yn teimlo'n hyderus, yn gyffrous ac yn dawel fy meddwl fy mod i yn y dwylo gorau posibl.”

“Rwyf wrth fy modd yn dod i weld Dr Tom! Mae'r staff bob amser mor broffesiynol a chefnogol. Rydw i wedi bod yn dod ers blwyddyn ac wedi sôn wrth lawer o'm ffrindiau ac mae'r gwasanaeth wedi creu argraff dda arnyn nhw hefyd.”

“Yr hyn oedd fwyaf amlwg oedd y sylw i fanylder a'r dull wedi'i bersonoli. Gadewais yn teimlo'n hyderus, yn gyffrous ac yn dawel fy meddwl fy mod i yn y dwylo gorau posibl.”

“Gwnaed i mi deimlo mor gyfforddus, gall y math hwn o apwyntiad godi dychryn, ond roeddwn i'n teimlo'n hollol ddiogel. Roedd Dr Tom mor garedig. Doedd dim byd byth yn ormod iddo. Cefais amser i feddwl am fy mhenderfyniad. Trylwyr dros ben a diogel. Mae ganddo enw eithriadol o dda.”

“Byddwn i'n argymhell Dr Tom i bawb! Roedd mor broffesiynol a gwybodus. Roedd y clinig bob amser mor lân a thawel, rwy'n teimlo mor gyfforddus ac yn gallu ymlacio yno.”

“Rydw i wedi bod yn dod yma ers blwyddyn neu ddwy nawr ac rydw i bob amser yn cael y profiad gorau. Rwy'n teimlo fy mod i mewn dwylo diogel iawn bob amser.”

“Clinig a meddyg gwych. Y gorau i mi ei gael erioed!!!”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd y cleifion yn cael cymorth i fyw bywydau iachach yn yr ymgynghoriad ac roedd gwybodaeth am fwyta'n iach yn cael ei hanfon atynt ar-lein. Dywedwyd wrthym fod yr ymgynghoriad cychwynnol yn cynnwys trafodaeth am fanteision ffyrdd iach o fyw, cynnwys protein, yn ogystal â màs y cyhyrau ac yn gyfle i gyfeirio'r claf at ffordd iach o fyw ar y cyd â'r meddyginiaethau y rhoddwyd presgripsiwn ar eu cyfer. Yn ogystal, byddai rhoi'r gorau i smygu ac yfed alcohol yn ddiogel yn cael ei drafod.

Urddas a pharch

Roedd sgriniau wedi'u gosod yn yr ystafelloedd ymgynghori ac roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri. Roedd gan bob ystafell ddrws y gellid ei gloi er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Roedd polisi hebryngwyr ar waith ac roedd y cleifion yn gallu gofyn i hebryngwr ddod gyda nhw i'w hymgyngoriad.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael y wybodaeth oedd ei hangen arnynt ar yr adeg briodol ac mewn ffordd y gallent ei deall yn hawdd, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer cael cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Cyn eu hapwyntiad, roedd holiadur colli pwysau meddygol cynhwysfawr yn cael ei roi i'r cleifion i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chasglu ymlaen llaw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir a chywir pan oedd ei hangen arnynt ac mewn ffordd y gallent ei deall yn hawdd. Roedd datganiad o ddiben y gwasanaeth

yn gyfredol, yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac ar gael ar y wefan, mewn dogfennau trefnu apwyntiad ac wedi'i argraffu ar gais.

Roedd canllaw i gleifion ar gael ac roedd y fersiwn a welsom yn ystod yr arolygiad yn briodol ac yn gynhwysfawr.

Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu mewn modd a oedd yn ystyried anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion. Er nad oedd y wefan na'r clinig yn cynnwys opsiynau dewis iaith eto, dywedodd y gwasanaeth y byddai'n ystyried rhoi swyddogaeth gyfieithu ar waith. Gallai cleifion hefyd gwblhau'r holiadur meddygol yn ystod eu hapwyntiad os oedd yn well ganddynt, yn hytrach na thrwy'r porth ar-lein. Roedd gwasanaeth cyfieithu ar-lein yn cael ei ddefnyddio lle bo angen er mwyn helpu i gyfathrebu.

Byddai'r cleifion yn cael gwybod am eu hopsiynau triniaeth, y gofal fyddai'n cael ei roi iddynt ac unrhyw gyfarwyddiadau ôl-driniaeth yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd parhad gofal yn cael ei gynnal drwy apwyntiadau dilynol ar ôl tair i bedair wythnos, a hynny wyneb yn wyneb yn unol â'r gofynion rheoleiddio. Roedd cyngor clir yn cael ei roi i gleifion ar adnabod symptomau baner goch, fel y rhai sy'n gysylltiedig â phancreatitis, ac roeddent yn cael gwybod ble i gael help pe bai'r symptomau hyn yn codi.

Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau ar gael ar wefan y gwasanaeth ac yn cael ei hesbonio eto yn ystod ymgynghoriadau fel rhan o'r broses cynllunio triniaeth.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael o hyd i gleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol. Gellid argraffu a darparu ffurflenni'n uniongyrchol ac roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau drwy sawl llwybr heblaw'r llwybrau digidol, gan gynnwys llinell ffôn a chyfeiriad e-bost penodol.

Dywedodd pawb a atebodd yr arolwg gan nodi eu bod wedi cael triniaethau eu bod yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am opsiynau triniaeth a'r risgiau, esboniadau clir am gostau, gwiriadau o hanes meddygol a'u bod wedi llofnodi ffurflenni cydsynio.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gofal a oedd yn amserol, yn briodol ac yn cael ei ddarparu gan y staff cywir. Roeddent yn cael eu hysbysu am unrhyw amseroedd aros neu oedi, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar a diweddariadau'n cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y gwasanaeth i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r driniaeth oedd wedi'i chynllunio ar eu cyfer.

Roedd y cleifion yn gallu cael cymorth gan staff mewn modd amserol cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth. Roedd slot apwyntiad pwrpasol yn cael ei neilltuo ar gyfer cleifion colli pwysau, gan sicrhau y gallent gael gwasanaeth prydlon gyda chyn lleied o oedi â phosibl.

Roedd pob un a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, wedi diogelu eu preifatrwydd, wedi esbonio triniaethau, wedi gwrandao ar gwestiynau ac wedi eu cynnwys mewn penderfyniadau gofal iechyd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig bod cleifion yn cael eu trin yn gyfartal a bod y staff yn gweithredu mewn ffordd a oedd yn cynnal hawliau pob unigolyn, gan gynnwys cleifion trawsryweddol, a oedd yn cael eu trin yn yr un ffordd â chleifion eraill. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau bod achosion o wahaniaethu yn cael eu herio a bod hawliau dynol pobl yn cael eu diogelu.

Roedd polisiau a hyfforddiant ar waith i helpu i amddiffyn cleifion rhag achosion o wahaniaethu ac roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael.

Roedd addasiadau rhesymol ar waith i sicrhau bod pobl, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth ar sail gyfartal. Roedd y gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Roedd grisiau i'r adeilad ond roedd ramp ar gael i sicrhau hygyrchedd. Roedd lleoedd parcio ar gael yn union y tu allan i'r lleoliad.

Roedd pawb a ymatebodd i'r holiadur i gleifion o'r farn eu bod yn gallu cael gofal iechyd priodol heb wahaniaethu ac ni nodwyd unrhyw brofiadau o wahaniaethu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y gwasanaeth yn gofyn am safbwyntiau'r cleifion ac yn eu defnyddio i helpu i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Roedd adborth yn cael ei gasglu drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys adolygiadau ar-lein, sylwadau llafar ac ysgrifenedig a chod ymateb cyflym (QR) a oedd ar gael yn y clinig a oedd yn cyfeirio'r cleifion at ffurflen adborth ar-lein. Roedd yr adborth hwn yn cael ei adolygu unwaith y mis.

Roedd canlyniadau'r adborth gan gleifion ar gael ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y gwasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am sut roedd y gwasanaeth wedi gweithredu mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd. Dywedwyd wrthym mai un o nodweddion nodedig dull gweithredu'r clinig oedd nad oedd yn gwneud unrhyw waith marchnata a oedd yn annog unigolion i symud yn gyflym i

ddosau triniaeth uchel. Yn hytrach, roedd yr athroniaeth yn seiliedig ar gynnal y dos isaf sy'n effeithiol o safbwynt ffisiolegol.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda chleifion yn gwerthfawrogi'r gofal cofleidiol a oedd yn cael ei ddarparu gan y clinig. Roedd rhai o'r sylwadau yn tynnu sylw at bryderon mewn perthynas â phrisiau. Nododd y gwasanaeth fod costau meddyginiaeth yn parhau i godi, a oedd yn cyfyngu ar ei allu i addasu prisiau heb beryglu hyfywedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd mynediad i'r adeilad wedi'i ddiogelu gan system mynediad drwy god, a oedd yn atal mynediad heb awdurdod. Roedd yr amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd y gosodiadau, y ffitiadau a'r dodrefn mewn cyflwr da, ac ni welwyd unrhyw beryglon amlwg, fel annibendod neu risgiau baglu.

Gwnaethom nodi bod adroddiad cyfredol ar yr arolygiad gosodiadau trydanol bob pum mlynedd ar waith, a oedd yn cadarnhau bod y system drydanol yn ddiogel. Roedd tystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar gael hefyd a oedd yn cadarnhau bod y dyfeisiau nwy yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelwyd tystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy wedi cael eu cynnal a'u dogfennu, a oedd yn cadarnhau bod cyfarpar trydanol yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel.

Roedd pob claf a fynegodd farn yn yr arolwg i gleifion yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch ac yn lân iawn. Nododd yr ymatebwyr:

“Lleoliad glân iawn â digon o le. Mynediad hawdd. Roedd ystafell y clinig yn olau ac yn gynnes.”

“Roedd ystafell y clinig wedi'i dylunio a'i rheoli i safon broffesiynol uchel.”

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y gwasanaeth fesurau priodol ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys trefniadau addas i ymateb i argyfwng yn ymwneud â chlaf. Roedd polisi uwchgyfeirio a Chynllun Parhad Busnes cyfredol ar gael, gyda manylion cyswllt perthnasol ar gyfer cwmnïau cyfleustodau a gwasanaethau allweddol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn argyfwng, gan gynnwys pe bai tân neu pe bai claf yn llewygu. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol.

Roedd pecyn cymorth cyntaf addas ar gael ac roedd diffibriliwr wedi'i leoli y tu allan i'r safle. Roedd hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol wedi'i gwblhau.

Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle wedi'i gwblhau, ac roedd yn gyfredol, gyda thystiolaeth ar gael i edrych arni. Roedd polisi anaffylacsis a pholisi wrth gefn cyfredol ar waith yn y lleoliad hefyd.

Roedd asesiad risg tân cyfredol ar gael, yn ogystal â chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Roedd tystiolaeth bod rhagofalon diogelwch tân wedi cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn, ac roedd y cofnodlyfrau yn cadarnhau bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith. Roedd hyfforddiant diogelwch tân wedi'i gwblhau.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' clir yn yr adeilad, ac roedd cyfarwyddiadau o ran y camau i'w cymryd pe bai tân wedi'u harddangos yn glir drwy arwyddion wedi'u goleuo a sticeri ar y waliau. Roedd yr allanfeydd tân yn ddigonol, ac roedd arwyddion clir ar eu cyfer. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi'u lleoli'n briodol, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu gwasanaethu.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y lleoliad drefniadau priodol ar waith i hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau effeithiol a dihalogi diogel. Roedd cwmni glanhau dan gontract yn gyfrifol am lanhau'r adeilad ac roedd yr ystafell glinigol yn cael ei glanhau gan y cwmni glanhau a'r rheolwr cofrestredig, a oedd yn glanhau'r cyfarpar clinigol. Roedd amserlenni glanhau ar gael ac yn dangos bod y gwaith glanhau gofynnol wedi'i gwblhau.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol trwy gontract cyfredol gyda chlodwr gwastraff cofrestredig. Roedd polisiau cyfredol ar atal a rheoli heintiau a dihalogi ar waith a chawsant eu hadolygu yn ystod yr arolygiad. Roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau hyd at y lefel ofynnol. Dywedodd y cleifion:

“Roedd y lleoliad fel pin mewn papur. Cefais fy synnu'n fawr fod y lleoliad mor anhygoel o lân.”

“Roedd ei ystafell yn amgylchedd clinigol glân iawn, roedd yr ardal aros yn yr adeilad cymunedol braidd yn anniben.”

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd meddyginiaethau yn cael eu cadw yn y lleoliad. Roedd y lleoliad yn rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn ac roedd y meddyginiaethau presgripsiwn preifat a ddefnyddiwyd ar gael drwy fferyllfa ar-lein.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel 3 ar ddiogelu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff diogelu perthnasol a'i fod yn ymwybodol o'r camau

i'w cymryd yn unol â pholisïau'r lleoliad. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban cyfredol ar gael.

Nid oedd unigolion dan 18 oed yn cael eu trin yn y clinig. Roedd cleifion yn cael eu hannog i beidio â dod â phlant gyda nhw i'w hapwyntiadau. Pan fyddai plentyn yn dod gyda rhiant, byddai bob amser yn aros gyda'r rhiant a'r clinigydd.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael asesiad i sicrhau bod y driniaeth yn addas ac yn ddiogel. Dywedwyd wrthym, pe bai'r gwasanaeth o'r farn nad oedd y driniaeth yn briodol, y byddai'n egluro pam ac yn rhoi cyngor ar opsiynau eraill neu'n atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Dim ond pan oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny roedd triniaeth yn cael ei chynnig ac roedd yn cael ei theilwra at angen clinigol yr unigolyn.

Er nad oedd pigladau colli pwysau yn cael eu rhoi ar y safle, roedd y clinig yn darparu peniau arddangos er mwyn i'r claf ddod i ddeall sut i roi'r pigladau.

Roedd pob un o'r cleifion a oedd wedi cael triniaeth yn cytuno'n gryf ei fod wedi derbyn cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a chanllawiau ar heintiau neu fanylion cyswllt brys.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn cael ei asesu a'i fonitro drwy adborth gan y cleifion a thrwy gwblhau archwiliad colli pwysau.

Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobrau 'Safety in Beauty' ac roedd wedi cael canmolïaeth uchel.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd yn ofynnol i gleifion gwblhau holiadur colli pwysau meddygol cynhwysfawr cyn eu hapwyntiad. Roedd hwn yn casglu gwybodaeth fanwl am gleifion, gan gynnwys hanes meddygol fel cyflyrau thyroid, y risg o pancreatitis ac unrhyw arwyddion o anhwylderau bwyta, er mwyn sicrhau y gellid eu nodi a'u rheoli mewn modd priodol.

Roedd yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi yn system electronig y gwasanaeth, Aesthetic Docs, a oedd yn storïo'r ddogfennaeth berthnasol yn ddiogel ar lwyfan seiliedig ar gwmwl.

Rheoli cofnodion

Roedd polisi rheoli cofnodion ar waith. Gwnaethom fwrw golwg dros gofnodion dau glaf, gan nodi eu bod yn gyfredol, yn gywir ac yn cydymffurfio â'r gofynion

rheoleiddio. Roedd y cofnodion yn cael eu storio yn system electronig y gwasanaeth ac roeddent yn cynnwys ffurflenni cydsynio a holiaduron meddygol wedi'u cwblhau, a oedd yn sail i'r asesiad clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gyda llinellau adrodd clir a fframwaith cadarn i gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol.

Roedd datganiad o ddiben cyfredol ar gael i'r cleifion a chadarnhaodd yr arolygiad fod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r datganiad hwn. Roedd canllaw i gleifion ar gael hefyd.

Gwelwyd dogfen llinellau adrodd yn ystod yr arolygiad. Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u derbyn cyn eu rhoi ar waith, gyda'r dogfennau yn cael eu hysgrifennu a'u cymeradwyo gan y rheolwr cofrestredig.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod argymhellion a gwybodaeth diogelwch gan gyrff allanol, fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Llywodraeth Cymru, yn cael eu rhannu a'u rhoi ar waith. Roedd y clinig preifat yn gweithredu ar ddiweddariadau a fyddai'n dod i law drwy rôl y rheolwr cofrestredig yn y GIG.

Roedd tystysgrif cofrestru ac atodlen AGIC yn cael eu harddangos yn amlwg yn y clinig, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru. Gwelwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod yswiriant cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith.

Ar y cyfan, gwelwyd bod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i drefnu'n dda iawn.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth brosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli pryderon. Roedd y cleifion yn cael gwybod am y weithdrefn gwyno, a oedd ar gael ar wefan y clinig ac a oedd wedi'i chynnwys yn y wybodaeth oedd yn cael ei hanfon at gleifion wrth drefnu apwyntiad.

Roedd polisi cwyno cyfredol ar waith. Roedd y polisi yn nodi'r broses ar gyfer derbyn cwynion, eu cofnodi ac ymchwilio iddynt ac yn cynnwys y protocol safonol ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb i'r cleifion.

Lle roedd cwyn yn ymwneud â'r rheolwr cofrestredig, sef y darparwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol hefyd, roedd y rhain yn cael eu rheoli gan reolwr y swyddfa i sicrhau lefel oruchwyllo ac annibyniaeth briodol.

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion ynglŷn â sut i roi adborth, mynegi pryder, gwneud cwyn a chael gafael ar ddeunyddiau hybu iechyd.

Roedd y gwasanaeth yn deall y weithdrefn ar gyfer hysbysu AGIC ynghylch digwyddiadau penodol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddiwyddiadau adroddadwy wedi codi.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau recriwtio diogel ac effeithiol ar waith i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nid oedd unrhyw staff ychwanegol yn cael eu cyflogi, a'r rheolwr cofrestredig oedd yn darparu'r holl ofal clinigol. Roedd tystiolaeth yn dangos bod ei gofrestrriad proffesiynol yn parhau i fod yn gyfredol, wedi'i ategu gan adolygiad blynyddol a oedd yn cael ei gynnal drwy ei swydd â'r GIG. Y dyddiad ar yr adolygiad diweddaraf oedd dechrau 2026 ac roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cael cyngor ar iechyd galwedigaethol drwy ei rôl yn y GIG. Roedd system ar waith i sicrhau bod unigolion yn parhau i fod yn addas i weithio i'r gwasanaeth. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gwblhau ac roedd tystiolaeth o imiwneiddiadau Hepatitis B ar gael.

Roedd polisi recriwtio a dethol addas a chyfredol ar waith. Roedd y gwasanaeth hefyd yn defnyddio contractwr, ac roedd y gwiriadau gofynnol wedi'u cwblhau ar ei gyfer. Roedd hyn yn rhan o'r cynlluniau i ehangu'r gwasanaeth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau staffio yn ddiogel ac yn briodol. Er mai dim ond un aelod o staff oedd yn cael ei gyflogi, roedd ganddo gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer y rôl.

Roedd trefniadau goruchwyllo ac arfarnu ar waith ar gyfer y staff. Roedd y rheolwr cofrestredig yn cael arfarniad blynyddol drwy ei swydd â'r GIG a gwelsom dystiolaeth o hyn yn ystod yr arolygiad.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn gyfredol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd wedi cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Aesthetics by Dr Tom Kamal

Dyddiad yr arolygiad: 10 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella wedi cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Aesthetics by Dr Tom Kamal

Dyddiad yr arolygiad: 10 Chwefror 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ac nid oedd yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella wedi cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad: